CARTREFI'R FRO |

# EGLURYDD JARGON AC ACRONYMAU!

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill
(print mawr, sain, Iaith Arwyddion Prydain a Braille fel y bo'n briodol) a gwahanol ieithoedd ar gais.

# CYFLWYNIAD

Croeso i'ch eglurydd jargon ac acronymau!

Waeth pa mor galed mae staff yn treio, maen nhw'n dal i ddefnyddio termau, geiriau, byrfoddau ac acronymau sy'n ein gadael mewn penbleth.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall y rhan fwyaf o'r jargon, ymadroddion, a byrfoddau y gallech ddod ar eu traws wrth weithio gyda staff tai, felly gobeithio y cewch esboniad yma o'r pethau nad ydych chi'n eu deall.

| | | |
|---|---|---|
| **Jargon** | - | **Geiriau neu ymadroddion sy'n cael eu defnyddio gan broffesiwn neu grŵp sy'n anodd i eraill eu deall.** |
| **Byrfoddau** | - | **Ffurf fer ar air neu ymadrodd** |
| **Acronym** | - | **Talfyriad sy'n cynnwys llythrennau cyntaf pob gair.** |

Peidiwch â bod ofn stopio pobl a gofyn a oes ymadrodd neu air yn cael ei ddefnyddio nad ydych yn ei ddeall.

Siawns na fyddwch chi ar eich pen eich hun!

Mae unrhyw fyrfoddau sy'n cael eu defnyddio gan staff tai hefyd wedi'u cynnwys, ynghyd â disgrifiad.

# A

## Adleoli

Gall tenantiaid gael eu symud allan o'u cartrefi dros dro (adleoli) i annedd arall os oes angen i'w landlord wneud gwaith a fyddai'n tarfu arnynt neu a fyddai'n anodd ei wneud gyda'r tenant yn byw yno.

## Adnewyddu

Adnewyddu a gwella eiddo, gwelliant mawr i adeilad i'w godi i safon dda o ran cyflwr. Gelwir hefyd yn foderneiddio.

## Aflonyddu

Ymddygiad sydd â'r bwriad i fygwth, dominyddu neu niweidio unigolion neu aelodau o grwpiau a nodwyd ar sail gwahaniaethau tybiedig, fel pobl o gefndir lleiafrif ethnig penodol.

## Anheddau Anhraddodiadol

Anheddau wedi'u hadeiladu'n gyfan gwbl neu'n bennaf o ddeunyddiau anhraddodiadol fel – Concrit/dur a/neu gan ddefnyddio technegau adeiladu anghonfensiynol megis fframiau dur a choncrit wedi'i gastio ymlaen llaw.

## Anheddau Traddodiadol

Cartrefi wedi'u hadeiladu'n gyfan gwbl neu'n bennaf o ddeunyddiau traddodiadol fel brics a phren gan ddefnyddio technegau adeiladu confensiynol fel fframwaith bloc a chroen allanol o frics.

## Arolwg Cyflwr Stoc

Asesiad o gyflwr y stoc dai yn erbyn safon benodedig a wneir fel arfer gan Syrfewyr cymwys annibynnol.

## Arolygon Boddhad Tenantiaid

Math o ymgynghoriad gyda thenantiaid i ddarganfod pa mor fodlon ydyn nhw â gwasanaethau tai, fel gwaith atgyweirio.

## Ased

Unrhyw eitem o werth gan gynnwys tai, garejis a rhai adeiladau swyddfa.

## Aseiniad

Yn yr amgylchiadau cyfyngedig canlynol, gellir aseinio tenantiaeth ddiogel o un person i'r llall.

1. Pan fo barnwr yn gwneud gorchymyn i roi'r denantiaeth i un o'r cyd-denantiaid neu rywun arall sy'n gysylltiedig â'r aelwyd.
   Weithiau gall hyn ddigwydd fel rhan o ysgariad neu mewn cysylltiad â diddymu partneriaeth sifil neu fel rhan o achos amddiffyn plant
2. Lle mae'r landlord yn rhoi caniatâd i gydgyfnewid ddigwydd. ce.

Mae'r partneriaid cyfnewid yn cwblhau aseiniad sydd i bob pwrpas yn rhoi iddynt hawliau a chyfrifoldebau'r person y maent yn cyfnewid ag ef.

## Atgyweiriadau Mawr

Gwelliannau i stoc dai sy'n rhy sylweddol i gael eu cwmpasu gan lwfansau arferol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw.

## Arolwg Anghenion Tai Fforddiadwy Gwledig

Cynhaliwyd yr arolwg hwn i ddarparu dadansoddiad manwl o'r angen am dai yng nghymunedau gwledig Bro Morgannwg ac i ddangos tystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy mewn lleoliadau gwledig priodol yn y Fro.

## Atgyweiriadau Ymatebol

Atgyweiriadau a wneir gan landlord mewn ymateb i adroddiad tenant, e.e. ffenestr wedi torri, seston yn gorlifo neu gwpwrdd cegin wedi'i ddifrodi.
Maen nhw'n cael dyddiadau targed sy'n cyfateb i'w blaenoriaeth.

# B

## BAME

Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. (Mae rhai yn cyfeirio at eu hunain fel pobl o liw)

## Budd-dal Tai

Arian sy'n cael ei dalu gan y Llywodraeth i landlordiaid i dalu costau tai pobl ar fudd-daliadau neu incwm isel.



"CREU DIWYLLIANT LLE RYDYM YN DATBLYGU AC YN MANTEISIO I'R EITHAF AR Y CYFLEOEDD I DENANTIAID A LESDDEILIAID GYFRANNU"

# C

## Cabinet

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg fodel Arweinydd a Chabinet o lywodraeth leol, sy'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar faterion y mae'n rhaid i'r cyngor ddelio â nhw yn ôl y gyfraith.

Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a hyd at naw cynghorydd arall ac mae'n defnyddio ei Bwerau Gweithredol i wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau'r Cyngor ar wasanaethau, swyddogaethau a rheoli corfforaethol, gan gynnwys cynlluniau a strategaethau.

Mae rhai materion allweddol, fel gosod y Gyllideb, yn parhau'n fater i'r Cyngor benderfynu arno.

## Canolfan Adnoddau

Enw arall am Ganolfan Gymunedol.
Dyma hefyd deitl rhai adeiladau Gwasanaeth Cymdeithasol sy'n darparu mwy nag un gwasanaeth i gleientiaid hŷn (e.e. gofal seibiant, canolfan ddydd, paratoi pryd ar glud, gweithwyr gofal cartref)

## Canolfan Gymunedol

Adeilad a ddefnyddir gan bobl leol i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau a chlybiau eraill yn y gymuned.

## Cartrefi'r Fro

Adran dai Cyngor Bro Morgannwg. Cartrefi'r Fro (bromorgannwg.gov.uk)

## Cefnogi Pobl

Fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio, darparu a monitro gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

## Clustnodi

Mae hyn yn atal cynghorau rhag symud arian rhwng y Cyfrif Refeniw Tai a Chyfrif Cyffredinol y Cyngor.
Mae'n gosod ffens ddychmygol o amgylch arian, swyddi, neu unrhyw eitem arall na ellir ond ei defnyddio / cael gan bobl neu sefydliadau penodedig a'i defnyddio at ddiben penodol.

## Cod Ymddygiad

Dyma set o ganllawiau sy'n disgrifio sut y mae disgwyl i aelodau pwyllgor neu grŵp gyflawni eu dyletswyddau ac ymddwyn pan fyddant mewn cyfarfodydd, neu wrth weithredu ar ran eu sefydliad. Gall hyn weithio'n unol â chyfansoddiad.

## Cofrestr Cartrefi Hygyrch

Cofrestr sy'n adnabod pobl anabl sydd angen cartrefi hygyrch, yn nodi eiddo hygyrch, eu lleoliad, a'u nodweddion, ac yn galluogi pobl i gael eu paru â chartrefi addas yn effeithiol. Lleihau'r angen am addasiadau mawr.

## Cyd-denantiaeth

Pan mae dau neu fwy o bobl yn rhannu eiddo ac mae ganddynt hawliau cyfartal i aros yn yr eiddo a chyfrifoldebau cyfartal am yr eiddo.

## Cydweithio

Pan mae un sefydliad yn cydweithio ag un neu fwy o sefydliadau i ddarparu gwasanaeth

## Cyfansoddiad

Dogfen a gynhyrchir gan grŵp yw cyfansoddiad, sy'n datgan ei nodau, amcanion, aelodaeth, rheolau ayyb. Mae'n hanfodol bod gan grŵp gyfansoddiad da, gan mai'r ddogfen hon y dylid cyfeirio ati os oes unrhyw broblemau'n codi o ran y ffordd mae'r grŵp yn cael ei redeg (e.e. sut a phryd mae cyfarfodydd yn digwydd, pwy sy'n gofalu am yr arian a beth i'w wneud os bydd anghydfod yn digwydd).  Gall rhai landlordiaid ofyn i grŵp fabwysiadu cyfansoddiad safonol neu fodel i dderbyn arian.

## Cyfle Cyfartal

Trin pobl yn gyfartal, a pheidio â rhagfarnu neu wahaniaethu ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil/crefydd, rhyw (rhywedd), cyfeiriadedd rhywiol.

## Cyfnewid Cydfuddiannol

Cynllun a sefydlwyd i ganiatáu i denantiaid Tai Cymdeithasol gyfnewid eiddo gyda Thenant Tai Cymdeithasol arall

## Cyfryngu

Dull o ddatrys anghydfodau rhwng dau barti gan ddefnyddio trydydd parti diduedd, a elwir yn 'Gyfryngwr'. Nod y Cyfryngwr, y mae'n rhaid iddo aros yn niwtral yn yr anghydfod, yw dod â'r ddau barti gwrthwynebus i ddealltwriaeth o'r problemau, gan gynnwys safbwyntiau ei gilydd, gan ddod i ddatrysiad cytûn.

## Cyllideb

Swm yr arian y mae sefydliad **neu unigolyn** yn amcangyfrif y bydd yn ei wario dros gyfnod penodol, fel arfer blwyddyn.

## Cymorth yn ôl yr Angen

Gwasanaeth cymorth tai sy'n cael ei ddarparu i unigolyn sydd angen cymorth yn ei gartref ei hun.

## Cynghorydd

Person sy'n cael ei ethol yn yr etholiadau lleol i gynrychioli ardal (ward).

## Cynllun Busnes

Dogfen sy'n nodi amcanestyniadau ariannol (incwm a gwariant) y sefydliad ar gyfer y dyfodol.

## Cynllun Ecwiti a Rennir Bro Morgannwg – Aspire2Own

Cynllun tai fforddiadwy lle mae Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn darparu benthyciad ecwiti am ganran y cytunwyd arni o'r pris prynu.

Mae'r prynwr yn ariannu'r gweddill trwy forgais confensiynol a chynilion.
Nid oes llog yn cael ei dalu ar y benthyciad, ond pan mae'r benthyciad yn cael ei ad-dalu, bydd y swm a gaiff ei ad-dalu yr un ganran gytûn o werth yr eiddo ar yr adeg honno.

Gellir ad-dalu'r benthyciad ar unrhyw adeg ond rhaid ei ad-dalu pan gaiff yr eiddo ei werthu.

## Cytundeb Tenantiaeth

Contract wedi'i lofnodi rhwng landlord a thenant.
Mae cytundeb tenantiaeth yn nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan bob parti, a pha hawliau sydd gan bob parti.

## Cytundebau Tenantiaeth Trwyddedig (dan 18 oed)

Mae Cytundeb Tenantiaeth Trwyddedig yn denantiaeth a roddir i berson dan 18 oed, na fyddai ganddo'r hawl i dŷ o dan y polisi tai safonol.
Byddai'r tenant(iaid) hefyd wedi cael eu derbyn yn Ddigartref.
Mae'r denantiaeth yn trosi i Drwydded Ddiogel, yna ar ôl i'r person droi'n 18 mae'n trosi i Denantiaeth Ragarweiniol, yna i Denantiaeth Ddiogel yn unol â'r amodau tenantiaeth.

# D

## Darparu Gwasanaeth

Y ffordd y mae gwasanaeth, fel atgyweiriadau, yn cael ei ddarparu i'r bobl sy'n ei dderbyn.

## Datblygu Cymunedol

Term cyffredinol sy'n cwmpasu'r broses o adeiladu cymunedau gweithredol a chynaliadwy drwy roi mynediad at wybodaeth a hyfforddiant i drigolion i'w galluogi i gymryd rôl fwy gweithredol yn eu cymuned.

## Datganiad Rhent

Mae hwn yn ddatganiad chwarterol o rent sy'n cael ei dalu/sy'n ddyledus ac yn dangos balans y cyfrif rhent.  Mae'n cael ei bostio i bob tenant sy'n rhentu eiddo (mae hyn yn cynnwys garejis rhent).

## Datgomisiynu

Eiddo nad oes eu hangen mwyach ac a fydd, yn ôl pob tebyg, yn cael eu dymchwel.

## Deddfwriaeth

Cyfraith gwlad.

## Defnyddiwr / Derbynnydd Gwasanaeth

Unigolyn sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau. Mewn perthynas â thai gallai hyn gynnwys defnyddwyr

- gwasanaethau Cefnogi Pobl,
- y gwasanaeth Cyngor i'r Digartref neu
- denant sy'n derbyn gwasanaeth cynnal a chadw.

## Diogelwch Deiliadaeth

Hawl tenant i aros yn ei gartref am gyfnod amhenodol os yw'n cadw at amodau ei gytundeb tenantiaeth.

## Digartref / Digartrefedd

Disgrifir rhywun sydd heb lety parhaol fel person digartref. Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i helpu pobl ddigartref.

## Diystyriadau

Rhai mathau o incwm (e.e. Lwfans Gweini) y gellir eu hanwybyddu wrth gyfrifo faint o Fudd-dal Tai y mae hawl gan rywun i'w gael.

## Dyraniadau

Defnyddir gan landlordiaid cymdeithasol i ddisgrifio'r broses o adnabod eiddo a'u gosod i bobl, sydd wedyn yn dod yn denantiaid iddynt.

# E

## Effeithlonrwydd Ynni

Effeithlonrwydd adeilad o ran cadw ynni a gynhyrchir o'i fewn, wedi'i fynegi fel cyfran o'r ynni a gynhyrchir.

## Eiddo Gwag

Tai gwag sydd fel arfer yn aros i waith gael ei wneud neu i rywun symud i mewn.

# G

## Gorchymyn Cyflwr Gwael

Rhoddir un o'r rhain gan y llys lle nad yw landlord yn bodloni ei rwymedigaeth i gadw cartref mewn cyflwr addas i fyw ynddo.

## Gosod Tai'n Lleol / Polisi Gosod Tai'n Lleol

Polisi gosod sy'n cael ei ddiwygio i gyd-fynd ag anghenion cymuned neu ardal benodol.
Byddai hyn yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i gymuned wledig lai neu ddatblygiad newydd sbon.  Gall ceisiadau gael eu blaenoriaethu trwy gysylltiad â'r ardal benodol honno, fel teulu sy'n byw neu weithio yno.

## Gwaith Amgylcheddol

Unrhyw waith a wneir mewn ardal leol benodol sydd wedi'i gynllunio i wella amwynder yr ardal, e.e. Ffensys, Goleuadau Stryd, Llwyni.

## Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio

System o atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw a wneir gan Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Dai a benderfynir o flaen llaw ac a gyfrifir yn y gyllideb flynyddol. Mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio yn aml yn cael ei wneud ar sail gylchol (e.e. bob 10 mlynedd).

## Gwariant Cyfalaf

Arian y mae landlordiaid yn ei wario ar brynu neu adnewyddu eu hasedau, fel tir, adeiladau a gwella eu heiddo rhent.

## Gweithgor Tenantiaid

Does dim rhaid i denantiaid fod yn aelod o grŵp ffurfiol i gymryd rhan:
Mae'r Gweithgor Tenantiaid yn gwahodd tenantiaid y Cyngor o bob rhan o'r Fro i gyfarfodydd a digwyddiadau rheolaidd i ddweud eu dweud, rhoi sylwadau ar wasanaethau a chyfrannu at ddatblygiad polisïau a gweithdrefnau.

## Gweithiwr Allweddol

Term a ddefnyddir gan y Llywodraeth i ddiffinio pobl sy'n gwneud swyddi sy'n hanfodol i'r gymuned, fel Diffoddwyr Tân, Nyrsys, Athrawon ac ati.

## Gorchymyn Adennill / Ailgodi

Gwaith atgyweirio a wnaed gan Awdurdodau Lleol y mae'n rhaid i'r tenant dalu amdano, nad yw oherwydd traul arferol.
Gallai hyn gynnwys er enghraifft, difrod bwriadol gan y tenant.

## Gorchymyn Adennill Meddiant

Dogfen gyfreithiol y mae landlord yn ei chael gan lys ynadon i feddiannu eiddo gan denant.

## Gwaharddeb

Gorchymyn a wneir gan lys i orfodi tenant i gydymffurfio ag amod tenantiaeth yw hwn, neu i atal difrod i safle, tresmasu ar eiddo, aflonyddu, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# H

## Hawl i Atgyweiriad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud rhai atgyweiriadau bach, brys sy'n debygol o effeithio ar iechyd neu ddiogelwch tenantiaid o fewn terfyn amser rhagnodedig.
Gelwir hyn yn Hawl i Atgyweiriad tenant.

## Home-Swapper

Mae Homes4U wedi ymuno a'r gwasanaeth cyfnewid ar-lein, Home-Swapper.
Home-Swapper yw gwasanaeth ar-lein mwyaf y DU sy'n helpu pobl i gyfnewid tai.
Os ydych chi'n byw mewn tŷ Cyngor neu Gymdeithas Dai yr ydych yn ei rentu, gallwch gyfnewid eich cartref.

## Homes4U

Cynllun gosod ar sail dewis Cyngor Bro Morgannwg, a weithredir mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill sydd ag eiddo yn y Fro. Homes4U (bromorgannwg.gov.uk)

## Hostel

Mae hosteli'n darparu llety dros dro i unigolion a theuluoedd digartref

# I

## Iawndal

Rhywbeth a roddir am ddifrod, colled neu anaf yn dilyn honiad lle gwelir bod sefydliad ar fai.

# L

## Landlord

Person neu grŵp neu sefydliad sy'n berchen ar, yn rheoli ac yn rhentu eiddo i denantiaid.

## Lesddeiliad

Person nad yw'n berchen ar y tir y mae ei gartref wedi'i adeiladu arno ac sy'n talu rhent tir am nifer sefydlog o flynyddoedd. Gelwir tenantiaid sy'n byw mewn fflatiau ac sy'n eu prynu gan eu landlord yn lesddeiliaid..

## Llety Dros Dro

Llety a ddefnyddir o bryd i'w gilydd i gyflawni dyletswydd statudol y Cyngor i bobl ddigartref. Gallai hyn gynnwys llety gwely a brecwast, ac unrhyw fath arall o lety hunangynhwysol.

## Llawlyfr Tenant

Yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y denantiaeth a'r landlord, fe'i rhoddir i denantiaid newydd gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai.

## Llety Brys

Eiddo sy'n cael ei ddefnyddio dros dro nes dod o hyd i lety parhaol.
Yn cynnwys hosteli, gwestai, a llety gwely a brecwast.

# M

## Mwynhad Tawel

Mae gan bob tenant diogel, sicr a byrddaliol sicr hawl statudol i Fwynhad Tawel.

Nid yw hyn yn cyfeirio at sŵn nac ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel y gallai'r ymadrodd awgrymu, ond at feddiant a mwynhad o'r eiddo heb aflonyddwch gormodol gan y landlord (neu gynrychiolydd y landlord) drwy weithredoedd sy'n debygol o ymyrryd â heddwch a chysur y tenant, er enghraifft aflonyddu neu droi allan anghyfreithlon.

## Meincnodi

Asesu perfformiad sefydliad, drwy ei gymharu â sefydliadau eraill o faint a phwrpas tebyg.



# N

## Niwsans

Ymddygiad sy'n amharu'n afresymol ar hawliau pobl eraill i ddefnydd a mwynhad o'u cartref a'u cymuned.

# O

## Ôl-ddyledion Rhent

Os ydych chi'n cwympo ar ei hôl hi gyda'ch taliadau rhent (a delir drwy Fudd-dal Tai neu gennych chi'ch hun), dywedir eich bod mewn ôl-ddyledion rhent.
Mae hyn yn golygu bod gennych ddyled ariannol i'ch landlord.
Cynghorir tenantiaid sydd mewn ôl-ddyledion rhent i gysylltu â'u landlord cyn gynted â phosib i geisio datrys y broblem, gan fod ôl-ddyledion yn torri'r cytundeb tenantiaeth ac yn gallu arwain at gael eich troi allan.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Yn dwyn ynghyd awdurdodaethau amrywiol y swyddfeydd y gwnaeth eu disodli - Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru, Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru.
Mae'n ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd ynghylch camweinyddu, methiant mewn gwasanaeth perthnasol neu fethiant i ddarparu gwasanaeth perthnasol gan unrhyw "awdurdod rhestredig" yng Nghymru.

Mae hefyd yn gyfrifol am blismona safonau moesegol mewn awdurdodau lleol.

# P

## Papur Gwyn

Yn dilyn ymgynghoriad Papur Gwyrdd, mae Papur Gwyn yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth am newidiadau i'r Gyfraith ar rai materion. Er ei fod yn agored i drafodaeth gyffredinol, nid dogfen ymgynghori yw hon.

## Papur Gwyrdd

Papur ymgynghori a gyhoeddir gan y Llywodraeth cyn gwneud rhywbeth yn gyfraith.

## Perchen-feddiannwr

Rhywun sydd wedi prynu ei gartref neu sydd â morgais ar yr eiddo.

## Polisi

Mae polisi yn ddatganiad, fel arfer yn ysgrifenedig, ynglŷn â sut y bydd sefydliad yn gweithio.

## Polisi Cyfle Cyfartal

Ymrwymiad ffurfiol i Gyfle Cyfartal sy'n datgan beth all rhywun ei wneud os yw'n teimlo ei fod wedi dioddef o wahaniaethu yn uniongyrchol neu anuniongyrchol.

## Polisi Dyrannu

Mae hwn yn gosod y rheolau ar gyfer dyrannu Tai Cymdeithasol.

## Polisi gosod

Mae hwn yn gosod y rheolau o ran sut mae'r Cyngor yn penderfynu pwy sy'n cael cynnig cartref yn gyntaf. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i roi blaenoriaeth i'r rhai sydd ag anghenion o ran tai.

## Pwyllgor

Grŵp o bobl a etholwyd gan aelodau sefydliad i gyflawni gwaith y sefydliad.

Mae'r pwyllgor yn trefnu cyfarfodydd grŵp, gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) y grŵp, ac mae'n gyfrifol am weithredu ar unrhyw benderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd hyn. Dylai pwyllgorau gael Cadeirydd, Ysgrifennydd, a Thrysorydd bob amser.

## Pwyllgor Craffu

Rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor sy'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu'n effeithiol, yn effeithlon ac er budd trigolion ac ymwelwyr â Bro Morgannwg.

Mae Pwyllgorau Craffu'n cynnwys Cynghorwyr nad ydynt ar y Cabinet. Gall y Pwyllgorau hyn ddylanwadu ar benderfyniadau a wna'r Cabinet a sicrhau bod barn ac anghenion y gymuned yn cael eu hystyried.

# R

## Rhanddeiliad

Person neu sefydliad sydd â diddordeb mewn sut mae prosiect neu wasanaeth yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu.

## Rhent

Arian sy'n cael ei dalu i landlord gan denant yn gyfnewid am feddiannu eiddo.

## Rhent Awgrymedig

Asesiad Llywodraeth Cymru o'r lefel y mae angen i'r Cyngor osod ei rent arni er mwyn mantoli ei Gyfrif Refeniw Tai amcanol, tra'n darparu lefel safonol o wasanaeth.

## Rheoliadau

Rheolau manwl a gyhoeddir gan y Llywodraeth ar sut mae deddfau'n cael eu cynnal.

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Daeth Deddf Diogelu Data 2018 â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE i gyfraith y DU. Mae'n rheoli eich hawliau data personol, gan gynnwys y ffordd y mae cwmnïau'n trin eich data a'r iawndal y gallwch ei hawlio am gamddefnyddio eich data.

# S

## Rheolwr Cynllun

Rhywun a gyflogir gan y landlord i gefnogi tenantiaid mewn ystadau bach o fflatiau neu dai/byngalos sy'n ffurfio rhan o Gynllun Llety Gwarchod. Mae'n gweithredu ar sail 24 awr, ond y tu allan i oriau swyddfa arferol mae'n gweithredu trwy larwm argyfwng.

## Siopwyr Dirgel

Tenantiaid sy'n gweithio'n wirfoddol fel tîm i archwilio a darparu safbwynt tenant ar ansawdd y gwasanaethau tai a ddarperir gan yr awdurdod lleol.
Yna mae'r siopwyr dirgel yn cynhyrchu adroddiad sy'n egluro lefel y gwasanaeth a gafwyd.

# T

## Tai Anghenion Cyffredinol

Tai sydd heb eu dynodi ar gyfer poblogaeth benodol, h.y. pobl ifanc, pobl hŷn ac ati.

## Tai Cymorth

Amrywiaeth o lety fel hosteli, llety a rennir/byw'n annibynnol ar gyfer pobl ag anghenion cymorth ychwanegol, e.e. anawsterau dysgu, pobl ifanc sy'n agored i niwed, y digartref, iechyd meddwl.

## Tâl Gwasanaeth

Yr arian y mae tenantiaid a lesddeiliaid yn ei dalu am wasanaethau fel –
wardeiniaid, ystafelloedd cymunedol a glanhau, goleuo, a chynnal chadw ardaloedd cymunedol.

## Tanfeddiannaeth

Mae hyn yn digwydd pan nad yw'r tenantiaid mewn eiddo yn ei feddiannu'n llawn. Un enghraifft bosib yw cwpl mewn tŷ tair ystafell wely, y mae eu plant wedi symud allan.

Gall tenantiaid symud i eiddo llai os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

# T

## Tai Fforddiadwy

Yn cynnwys tai rhent cymdeithasol, canolradd a pherchentyaeth cost isel a ddarperir i aelwydydd cymwys nad yw'r farchnad agored yn diwallu eu hanghenion.

## Tenant

Person, neu bersonau, sy'n cytuno i feddiannu eiddo sy'n berchen i rywun arall yn gyfnewid am daliad (h.y. rhent).

## Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr

Yn rhoi'r hawl i'r tenant feddiannu eiddo am gyfnod penodol, os ydynt yn cadw at delerau eu Cytundeb Tenantiaeth.

Ar ddiwedd y cyfnod penodedig (6 mis yn aml), mae gan y landlord neu'r tenant yr hawl i derfynu'r denantiaeth.

Gellir adnewyddu Tenantiaethau Byrddaliol Sicr am gyfnod penodol arall os yw'r ddau barti'n gytûn.

## Tenantiaeth Sicr

Mae gan denantiaid Cymdeithasau Tai denantiaethau sicr.

Mae ganddynt lai o hawliau o dan y gyfraith na thenantiaid diogel, er bod canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o'r hawliau hyn gael eu hysgrifennu i gytundebau tenantiaeth sicr.

## Tenantiaeth Isradd

Mae tenantiaethau isradd yn caniatáu i landlordiaid wneud cais i'r llys i leihau diogelwch deiliadaeth (e.e. o ddiogel i ragarweiniol) ar gyfer tenant presennol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu ddefnydd o'r safle at ddibenion anghyfreithlon.

## Tenantiaeth Ddiogel

Ar ôl blwyddyn o ddechrau tenantiaeth, mae'r tenant yn dod yn denant diogel yn awtomatig. Mae hyn ond yn digwydd lle mae'r denantiaeth wedi bodloni amodau'r denantiaeth, h.y. dim ôl-ddyledion rhent nac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Treth Gyngor

Mae hon yn dreth ar eiddo sy'n cael ei thalu i Gynghorau lleol gan bob preswylydd a busnes i helpu i dalu am y gwasanaethau (ac eithrio tai) y mae'r Cyngor yn eu darparu.

## Trwsio

Trwsio rhywbeth sydd wedi torri, y tu mewn neu'r tu allan i'ch cartref, e.e. peipen law wedi blocio neu dap sy'n diferu.
Dylai tenantiaid gyfeirio at eu cytundeb tenantiaeth i weld ai nhw neu eu landlord sy'n gyfrifol am wneud gwaith atgyweirio penodol.
Gweler hefyd Atgyweiriadau Ymatebol a Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio.

# Y

## Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Un o brif amcanion y comisiwn yw rhoi diwedd ar wahaniaethu ac aflonyddu ar sail anabledd, oedran, crefydd neu gred, hil, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol.
Mae'r comisiwn newydd yn dwyn ynghyd waith tri chyn-gomisiwn cydraddoldeb, y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal.

## Ymgynghoriad Tenantiaid

Trefniadau ar gyfer cynnwys tenantiaid mewn penderfyniadau ar bolisi tai ac arferion sy'n mynd y tu hwnt i wybodaeth cyn gwneud penderfyniad.

## Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Fe'i gelwir hefyd yn yswiriant trydydd parti. Mae'n yswirio sefydliad yn erbyn y posibilrwydd o hawliadau gan y cyhoedd am anaf, colled neu ddifrod ac ati, i berson neu eiddo.

# ACRONYMAU

## A

**AAG** — **Aseswr Ansawdd Gwasanaeth**

Mae gwirfoddolwyr yn helpu i graffu'n fanwl ar y gwasanaethau y mae Cartrefi'r Fro yn eu darparu, gan ddarparu her adeiladol o ran Pam a Sut y caiff gwasanaethau eu darparu fel y maen nhw.

**AFDL** — **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol**

Bwriad yr AFDL yw helpu'r awdurdod lleol i asesu'r angen a'r galw am dai yn eu hardal nhw i gynllunio gwasanaethau tai ac adlewyrchu amcanion Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu cymunedau cynaliadwy.
Mae'r canllaw'n galluogi'r awdurdod lleol i gael ffigyrau cyffredinol ar gyfer nifer yr aelwydydd sydd angen tai ychwanegol yn eu hardaloedd, ac i benderfynu beth mae hyn yn ei olygu o ran y farchnad a'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy.

**AGPh** — **Yr Adran Gwaith a Phensiynau**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am bolisi lles a phensiwn ac mae'n chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi plant.
Dyma'r adran darparu gwasanaethau cyhoeddus fwyaf yn y DU ac mae'n gwasanaethu dros 20 miliwn o gwsmeriaid.

**ALl** — **Awdurdod Lleol**

Mae awdurdod lleol yn sefydliad sy'n swyddogol gyfrifol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol.

## B

**BAME**

Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. (Mae rhai yn cyfeirio at eu hunain fel pobl o liw)

**BGC** — **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Lle mae arweinwyr sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector lleol yn dod at ei gilydd i weithredu ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar ddinasyddion.

# C

**CBM** — **Cyngor Bro Morgannwg**

**CCB** — **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cyfarfod blynyddol lle mae Pwyllgor sefydliad yn adrodd ar ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf, yn cyflwyno'r cyfrifon ariannol i'w aelodau, ac yn adolygu'r cyfansoddiad.
Mae pwyllgor newydd hefyd yn cael ei ethol yn y CCB.

**CCB** — **Canolfan Cyngor ar Bopeth**

Yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim i bobl leol, yn bersonol neu dros y ffôn. Maen nhw'n rhoi cyngor ar faterion fel budd-daliadau, dyled a hawliau defnyddwyr.

**CCC** — **Cartrefi Cymunedol Cymru**

Cartrefi Cymunedol Cymru (Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru gynt) yw'r corff sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol annibynnol yng Nghymru.

Mae CCC yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth genedlaethol a lleol, cyrff tai a thenantiaid eraill a chyrff gwirfoddol perthnasol i ddatblygu strategaethau tai tymor hir a thymor byr effeithiol yng Nghymru.

**CCT** — **Cynllun Cymorth Tenantiaid drwy Cefnogi Pobl**

**CGCT Cymru** — **Gwasanaeth Cynghori ar Gyfranogiad Tenantiaid**

Sefydliad cenedlaethol nid-er-elw sy'n gweithio gyda thenantiaid a landlordiaid ar amrywiaeth o brosiectau cyfranogiad tenantiaid ac yn darparu cyrsiau hyfforddi i denantiaid.

**CGGC** — **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

Dyma lais y sector gwirfoddol.
Mae'n cynrychioli, cefnogi ac ymgyrchu dros fudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau yng Nghymru.

**CGTh** — **Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

Darperir cymorth sy'n gysylltiedig â thai i: "Helpu pobl fregus i ddatblygu, neu gynnal, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fyw yn annibynnol.
Hynny yw, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau arferol sy'n gysylltiedig â rheoli'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gymesur â'r hawl a'r gallu i feddiannu cartref".

**CP** **Cefnogi Pobl**

Fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth sy’n gysylltiedig â thai i bobl fregus.

**CRT** **Cyfrif Refeniw Tai**

Cyfrif o wariant ac incwm y mae’n rhaid i bob adran dai awdurdod lleol ei gadw. Mae’r cyfrif yn cael ei gadw ar wahân neu’n cael ei glustnodi o weithgareddau eraill y cyngor.

**CTPhau** **Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr**

Grŵp gwirfoddol sy’n cynnwys pobl sy’n byw mewn ardal neu gynllun penodol, sydd wedi dod at ei gilydd i ddweud eu dweud ar faterion lleol, gwella eu hardal neu drefnu digwyddiadau cymdeithasol.
Dyma rai enwau eraill a ddefnyddir: Cymdeithas Preswylwyr, Cymdeithas Tenantiaid, Cymdeithas Lesddeiliaid ac ati.
Mae grwpiau tenantiaid yn cynrychioli pobl sy’n dod at ei gilydd i wella eu cymuned leol.
Maent yn cynrychioli barn y gymuned ac yn gweithio gyda’r **Tîm Cyswllt Tenantiaid** a sefydliadau eraill ar amrywiaeth o faterion.

# D

**DPAau** **Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Nodau pwysig sy’n fesuradwy i ddangos a yw prosiect neu sefydliad yn cyflawni eu nodau.

# E

# F

**FfAD** **Fforwm Ansawdd Dylunio**

Yn cynnwys 6 thenant (arweinir y fforwm hwn gan denantiaid) - mae staff yn bresennol i gasglu gwybodaeth.
Maent yn mynychu cyfweliadau, yn ymweld ag eiddo gwag, yn craffu ar gontractwyr mewnol ac allanol drwy waith papur neu wyneb yn wyneb.

# G

**GAS - Sgôr** **Sgôr Gweithdrefn Asesu Safonol**

Y cyfrifiad sydd ei angen i gynhyrchu Asesiad Ynni Rhagfynegol a Thystysgrif Perfformiad Ynni Adeiladu. Mae Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifiad GAS a TPY Ragfynegol gael eu cyflwyno ar gyfer anheddau newydd cyn dechrau’r gwaith.

**GAT** — **Goruchwylydd Arolygu Tai**

Un o weithwyr Gwasanaethau Adeiladau Cartrefi'r Fro.

**GCT** — **Grant Cymorth Tai**

Mae'r GCT yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch, sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa llety, neu'n helpu pobl a allai ddod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Nid yw'r GCT yn ariannu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd, yn hytrach mae gwasanaethau a ariennir gan y GCT yn ategu a chefnogi'r gwasanaeth statudol i sicrhau bod awdurdodau yn rhoi cymorth i bobl i mewn i'r cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau - rhai lluosog weithiau - sy'n eu hwynebu, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth ac ati.

**GDPR**

Daeth Deddf Diogelu Data 2018 â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE i gyfraith y DU. Mae'n rheoli eich hawliau data personol, gan gynnwys y ffordd y mae cwmnïau'n trin eich data a'r iawndal y gallwch ei hawlio am gamddefnyddio eich data.

**GiD** — **Gwahoddiad i Dendro**

Y cam cyntaf mewn tendro cystadleuol, lle gwahoddir cyflenwyr a chontractwyr i roi cynigion ar gyfer contractau cyflenwi neu wasanaeth. Mae'r GiD yn un broses ar gyfer caffael.

**GRhR** — **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**

Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn bartneriaeth rhwng Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Llywodraethir y bartneriaeth gan Gydbwyllgor, sydd â nifer hafal o Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd o bob Cyngor. Bydd y bartneriaeth hon yn darparu gwasanaethau mwy effeithlon, cost-effeithiol, gan gynyddu gwytnwch o ran:

- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Trwyddedu
- Tai'r Sector Preifat

**GTC** — **Grant Tai Cymdeithasol**

Yr arian y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i gymdeithasau tai i'w helpu i brynu, adeiladu, trwsio neu wella tai fforddiadwy i'w rhentu neu werthu.

**GYG** — **Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Math o orchymyn llys yw gwaharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol a all eich atal rhag gwneud rhai pethau neu fynd i rai mannau.  Gallant hefyd fynnu eich bod chi'n gwneud rhywbeth

## H

**HACM** — **Hysbysiad o Achos Cymryd Meddiant**

Hysbysiad cyfreithiol a roddir i denant sy'n dweud bod y landlord yn ceisio meddiant o Denantiaeth Ragarweiniol.
Mae yna gyfnod rhybudd o 28 diwrnod ac nid yw'r HACM fel arfer yn cael ei atal gan y Barnwr.
Mae'r Denantiaeth Ragarweiniol yn rhedeg am flwyddyn ac, yn yr amser hwnnw, gellir defnyddio HACM ar gyfer ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**HCM** — **Hysbysiad Ceisio Meddiant**

Hysbysiad cyfreithiol a roddir i denant sy'n dweud bod y landlord yn bwriadu cymryd meddiannaeth o'r eiddo am nad yw amodau'r denantiaeth wedi'u bodloni.
Mae'n rhybudd o'r bwriad i fynd i'r llys i geisio gorchymyn troi allan.
Fel arfer 28 diwrnod yw'r cyfnod amser rhwng dyddiad y rhybudd a'r atgyfeiriad i'r llys.

## I

**IWA** — **Insiwleiddio Wal Allanol**

Mae'r rhain yn fyrddau insiwleiddio ewyn allanol, sydd wedyn yn cael eu rendro.

**IWF** — **Insiwleiddio Wal Fewnol**

Gosodir y deunydd hwn y tu mewn i'r eiddo

## J-K

## L

**LCC** — **Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

Cymdeithas Dai annibynnol nid-er-elw

**LIC** — **Llywodraeth Cymru**

## M

## N

**NIMBY** — **"Ddim yn fy iard gefn"**

(h.y. pobl sydd eisiau ynni "Gwyrdd", ond sydd ddim eisiau fferm wynt ger eu cartref).

## O-Q

## R

**RhG** — **Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae'r Ddeddf yn ymdrin â phob cais ysgrifenedig am wybodaeth, ac eithrio ceisiadau gan unigolion am eu data personol eu hunain a cheisiadau prosesau busnes arferol.
Yn rhoi'r hawl i fynediad at wybodaeth gofnodedig a gedwir gan sefydliadau sector cyhoeddus.

## S

**SATC Cam 1 a 2** — **Safon Ansawdd Tai Cymru**

Mae hon yn safon y mae'n rhaid cynnal a gwella cyflwr ffisegol tai cymdeithasol presennol yn unol â hi.
Bwriad y Safon yw helpu landlordiaid cymdeithasol i asesu eu stoc dai.
Bydd y Safon yn sicrhau bod anheddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion nawr ac yn y dyfodol.

**Cydymffurfiaeth SATC** — **Cydymffurfiaeth Safon Ansawdd Tai Cymru**

Dyma'r derminoleg a ddefnyddir i sicrhau bod POB eiddo sy'n eiddo i'r cyngor yn cael ei gadw'n gyfredol (cydymffurfiol) (o fewn y rheolau)

**Cynnal a Chadw SATC** — **Cynnal a Chadw Safon Ansawdd Tai Cymru**

Mae'r derminoleg hon yn cyfeirio at y rhaglen cynnal a chadw.

**SCCH** — **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu**

Mae ganddynt rolau gwahanol mewn gwahanol luoedd, ond maent fel arfer yn patrolio ardal ac yn rhyngweithio â'r cyhoedd, tra hefyd yn cynorthwyo swyddogion yr heddlu ar safleoedd trosedd a digwyddiadau mawr.

**SCT** — **Swyddog Cyswllt Trigolion**

Dyma Swyddog Cyswllt y Contractwyr.

**SCTau** — **Swyddogion Cyswllt Tenantiaid**

Swyddogion y Cyngor yw'r rhain sy'n gweithio ac yn cysylltu â thenantiaid pan fo gwaith mawr neu waith SATC yn cael ei gwblhau ar eu heiddo neu yn eu cymunedau.

**SLIU** — **Sefydliad Llafur Uniongyrchol**

Fe'i defnyddir i ddisgrifio gwasanaethau fel atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau sy'n cael eu darparu gan uned fusnes Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Dai

**STSi a STSi Cymru** — **Sefydliad Tai Siartredig / Cymru**

Sefydliad sy'n dyfarnu cymwysterau proffesiynol i bobl sy'n gweithio ym maes tai.
Dyma hefyd y corff sy'n cynrychioli gweithwyr tai proffesiynol.

## T

**TGCh** — **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Yn cyfeirio at yr holl dechnolegau cyfathrebu, gan gynnwys y rhyngrwyd, rhwydweithiau di-wifr, ffonau symudol, cyfrifiaduron, meddalwedd, canolwedd, fideo-gynadledda, rhwydweithio cymdeithasol, a rhaglenni a gwasanaethau cyfryngau eraill sy'n galluogi defnyddwyr i ddefnyddio, adfer, storio, trosglwyddo, a thrin gwybodaeth ar ffurf ddigidol.

**TPY** — **Tystysgrif Perfformiad Ynni**

Gweler GAS - Sgorio

**TR** — **Tenantiaethau Rhagarweiniol**

Mae cynghorau'n cynnig tenantiaethau rhagarweiniol dewisol i denantiaid newydd. Maent fel arfer yn para am flwyddyn ac yna'n newid i denantiaeth ddiogel os nad yw'r tenant wedi torri telerau'r cytundeb.

## U-Z

Vale Homes
Safe in our hands

Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG